

# Grant Darparwyr Gofal Plant

## CANLLAWIAU

Mae'r grant hwn yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau gofal plant sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac mae eu hincwm net wedi disgyn oherwydd COVID-19 ac nid ydynt wedi gallu cael grantiau drwy gynlluniau eraill Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru.

Bydd y grant yn cael ei roi os oedd incwm net y busnes wedi disgyn yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020 o'i gymharu ag 1 Ebrill i 30 Mehefin 2019. Yr incwm net fydd y taliadau a fydd yn mynd i mewn i gyfrif banc y busnes minws y taliadau a fydd yn mynd allan a fydd yn cael eu dangos ar gyfriflen banc y busnes dros y cyfnod.

Fel arall, os oedd eich busnes wedi dechrau masnachu ar 2 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny, efallai byddwch chi'n gymwys i gael grant o hyd at £2,500 os oeddech chi wedi cael colled net am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020 a'ch bod yn diwallu'r holl feini prawf eraill sy'n cael eu rhestru isod. Bydd y grant a gewch yn £2,500 neu'r golled go iawn a gawsoch yn ystod y cyfnod, pa un bynnag sydd isaf.

**Cofiwch** bydd unrhyw gymorth a gawsoch neu rydych am ei gael o ffynonellau cyhoeddus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020 yn cael ei gyfrif fel incwm ac mae'n **rhaid** i chi roi gwybod am hyn. Bydd hyn yn cynnwys cyllid sy'n ymwneud â Chynnig Gofal Plant Cymru, Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws, Dechrau'n Deg, Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ac unrhyw gymorth ariannol gan eich awdurdod lleol, fel grantiau cynaliadwyedd a chychwyn busnes (mae'r rhain yn wahanol i gynllun Grant Cychwyn Busnes Llywodraeth Cymru).

Yn amodol ar y meini prawf isod, mae'n bosibl i fusnes fod yn gymwys i gael grant o hyd at £5,000:

- Pan fydd yr incwm net wedi disgyn 50% neu lai, bydd y grant yr un fath â'r gostyngiad yn yr incwm net, neu'n £2,500, pa un bynnag sydd isaf;
- Pan fydd yr incwm net wedi disgyn 51% neu fwy, bydd y grant yr un fath â'r gostyngiad yn yr incwm net, neu'n £5,000, pa un bynnag sydd isaf;
- Os oedd y busnes wedi dechrau masnachu ar 2 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny, bydd y busnes yn gymwys i gael grant sy'n cyfateb i'r golled net a gafwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020, neu £2,500, pa un bynnag sydd isaf.

Mae enghreifftiau ar ddiwedd y canllawiau i'ch helpu gyda'r cyfrifiadau.

### DIBEN Y GRANT

Mae'r grant ar gael i gefnogi busnesau gofal plant cofrestredig gyda'u llif arian er mwyn eu helpu gyda chanlyniadau economaidd Covid-19. Mae'r grant yn ceisio helpu'r busnesau gofal plant hynny nad ydynt wedi gallu defnyddio cynlluniau eraill. Mae'r grant yn cyd-fynd â mesurau eraill i ymateb i Covid-19 sy'n cefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a chyrrff elusennol yng Nghymru.

### BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau sy'n cychwyn, microfusnesau a busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn gallu eich helpu i ddeall beth sydd ei angen arnoch a darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra gan gynnwys mynediad at offer ar-lein, gweithdai, cynghorwyr a mentoriaid arbenigol. Yn ogystal â gweithio gyda chi ar ddiagnosteg busnes a chynllun gweithredu, mae ein cynghorwyr yn gallu darparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a chyfeirio at gymorth arall a allai eich helpu.

Mae'n **rhaidd** i ymgeiswyr llwyddiannus gofrestru am gymorth gyda gwasanaeth Busnes Cymru ar ôl dyfarnu'r grant.

I gael gwybod rhagor, ewch i <https://fundchecker.businesswales.gov.wales/childcare/cy>.

## PWY SY'N CAEL GWNEUD CAIS?

Mae grant o hyd at £5,000 ar gael i fusnesau gofal plant sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac y mae Covid-19 wedi effeithio arnyn nhw. Mae'n rhaid i'ch incwm net rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 fod wedi disgyn o'i gymharu ag Ebrill-Mehefin 2019 oherwydd COVID-19 ac nid oeddech wedi gallu defnyddio'r cynlluniau grant eraill a oedd yn cael eu cynnig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Neu, fel arall, os oedd eich busnes wedi dechrau masnachu ar 2 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny, efallai byddwch chi'n gymwys i gael grant o hyd at £2,500 os oeddech chi wedi cael colled net am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020 a'ch bod yn diwallu'r holl feini prawf eraill sy'n cael eu rhestru isod.

Dim ond busnesau sy'n diwallu'r meini prawf canlynol sy'n cael hawlio'r grant hwn:

- Mae'r busnes yn darparu gofal plant;
- Mae'r busnes wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru;
- Mae'n rhaid i'r busnes fod wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers 1 Mawrth 2020 neu cyn hynny ac mae'n parhau neu'n bwriadu parhau i weithredu yng Nghymru
- Os yw'r busnes wedi cau dros dro, mae'n rhaid i'r busnes ymrwymo i ailagor yn llawn ar 14 Medi 2020 neu cyn hynny neu, os yw'r busnes ar eiddo ysgol, cyn gynted ag y bydd yr ysgol yn caniatáu hynny
- Mae incwm net y busnes wedi disgyn oherwydd y coronafeirws rhwng 1<sup>af</sup> Ebrill a 30<sup>ain</sup> Mehefin 2020 o'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2019; **neu** os oedd y busnes wedi dechrau masnachu ar 2 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny a'i fod wedi cael colled net dros y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020;
- Nid yw'r busnes wedi cael cyllid gan a/neu nid yw wedi cyflwyno cais llwyddiannus am gyllid gan y Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Ardrethi Busnes, y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, Grant Cychwyn Busnes Llywodraeth Cymru neu Gronfa Cadernid y Trydydd Sector neu, pan fo'n berthnasol, cynllun grant Mudiad Meithrin sy'n cael arian o Gronfa Cadernid y Trydydd Sector.
- Pan fo'n berthnasol, mae datganiadau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi cael eu diweddarau a bydd copïau'n cael eu darparu gyda'r cais;
- Mae angen i fusnesau gadarnhau y bydd y fenter mewn perygl heb gymorth y grant, ac amlinellu pam;
- Mae'n rhaid i'r busnes fod wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant, cwmni cyfyngedig preifat, Cwmni Buddiannau Cymunedol neu'n Sefydliad Corfforedig Elusennol neu mae'n rhaid i'r busnes ymrwymo i gofrestru i fod yn un

o'r rhain cyn pen 12 mis. (Bydd partneriaid Cwlwm yn gallu trafod hyn â chi os nad ydych chi'n siŵr). Os ydych chi'n warchodwr plant **ac** wedi cofrestru gyda CThEM fel unig fasnachwr, yna nid ydy hyn yn berthnasol i chi;

- Os ydych chi'n cyflogi staff, rhaid i'ch busnes geisio parhau i gyflogi staff am 12 mis;
- Dim ond un cais fesul busnes.

Bydd angen i'r busnesau ddarparu:

- Prawf o fanylion adnabod yr ymgeisydd (un o'r canlynol)
  - Trwydded yrru cerdyn llun gyfredol y DU neu Ardal Economaidd Ewropeaidd
  - Pasbort cyfredol wedi'i lofnodi
  - Tystysgrif geni wreiddiol
- Prawf o gyfeiriad y busnes (un o'r canlynol)
  - Cyfriflen y dreth gyngor
  - Bil cyfleustodau
  - Gohebiaeth ysgrifenedig yn cadarnhau cofrestru gyda CThEM
  - Os ydych chi'n gweithio mewn eiddo ysgol, tystiolaeth addas neu gadarnhad gan yr ysgol
- Tystiolaeth eich bod wedi bod yn masnachu hyd at 1<sup>af</sup> Mawrth 2020 ee cyfriflenni banc (Gwnewch yn siŵr bod yr holl incwm a gwariant sy'n ymwneud â'r busnes wedi cael eu dangos yn amlwg ar gyfriflenni banc.)
- Trosiant go iawn y flwyddyn dreth 2019/20 a'r trosiant rydych yn ei ddisgwyl ar gyfer y flwyddyn dreth 2020/21.
- Cyfriflenni banc busnes, neu gyfriflenni cyfrifon sy'n cael eu defnyddio at ddibenion busnes ar gyfer y cyfnodau 1 Ebrill i 30 Mehefin ar gyfer 2019 a 2020.

Os oes unrhyw un o'r dogfennau uchod yn enw'r unigolyn yn hytrach nag yn enw'r busnes, eglurwch pam.

Os na fydd busnes yn gallu cytuno i'r meini prawf uchod, ni fydd yn gymwys ar gyfer y cynllun.

## **FAINT GEWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO?**

Mae grant o hyd at £5,000 ar gael fesul busnes i gefnogi llif arian er mwyn helpu busnesau aros yn solfent drwy'r cyfnod masnachu yr amharwyd arno.

Mae angen i fusnesau gadarnhau y bydd y fenter mewn perygl heb gymorth y grant, ac amlinellu pam.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried fesul un a bydd y grant yn cael ei dalu yn ôl disgrisiwn absoliwt y corff dyfarnu.

## **SUT MAE GWNEUD CAIS**

Mae busnesau'n gallu gwneud cais am y grant drwy ddefnyddio'r gwiriwr cymhwysedd ar wefan Busnes Cymru. Os ydych chi'n gymwys, byddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno

cais i'ch awdurdod lleol. Mae'n **rhaidd** cynnwys eich tystiolaeth gyda'ch cais. Ni fydd ceisiadau heb dystiolaeth yn cael eu hystyried.

Mae dogfennau wedi'u sganio a lluniau yn fathau derbyniol o dystiolaeth ar gyfer hyn.

Mae'r Grant Darparwyr Gofal Plant yn gwahodd ceisiadau o 24<sup>ain</sup> Awst 2020 nes bydd yr holl gronfa wedi cael ei hymrwymo neu 31<sup>ain</sup> Hydref 2020, pa un bynnag sydd gyntaf. Bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y **cyntaf i'r felin**. Mae hyn yn golygu efallai na fydd ceisiadau'n cael eu harfarnu ar ôl iddynt gael eu cyflwyno os bydd y gronfa wedi cael ei hymrwymo'n llawn. Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn absoliwt ar hyd a thelerau'r gronfa.

### **Adran 1 – Eich manylion personol**

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi 'yr ymgeisydd'.

### **Adran 2 – Gwybodaeth am eich busnes**

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth am eich busnes. Gwnewch yn siŵr bod manylion yr adran hon yn gywir ac yn gyflawn. Ni fydd ffurflenni cais anghyflawn neu sydd â data anghywir yn cael eu prosesu.

### **Cymorth De Minimis**

Rhaid i chi ddatgan os ydych chi wedi cael unrhyw Gymorth De Minimis yn ystod y 3 blynedd ariannol diwethaf (hy y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol) ynghyd â'r symiau a gafwyd a manylion y corff dyfarnu.

### ***Beth yw Cymorth De Minimis?***

Er mwyn ystumio cyn lleied â phosibl ar gystadleuaeth mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod terfyn ar faint o gymorth mae modd ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Dan Reoliad 1407/2013 y Comisiwn Ewropeaidd (Rheoliad Cymorth de minimis) fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 24 Rhagfyr 2013, mae'r cymorth a roddir yn gymorth de minimis. Mae trothwy o €200,000 (€100,000 ar gyfer mentrau yn y sector trafndiaeth ar y ffyrdd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a roddir i unrhyw un sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol (hy y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis a gewch chi dan y gwasanaeth hwn yn berthnasol. Rhowch wybod i ni am unrhyw gymorth de minimis arall rydych chi wedi'i gael yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, gan fod angen i ni wneud yn siŵr na fydd ein cymorth ni a'r cymorth rydych chi eisoes wedi'i gael yn mynd dros y trothwy sef €200,000 (€100,000 ar gyfer mentrau yn y sector trafndiaeth ar y ffyrdd) dros y 3 blynedd ariannol diwethaf. Mae'r cymorth yn golygu mwy na grantiau, mae'n golygu help fel gwasanaethau ymgynghori am ddim neu gyda chymorth, cyngor ar farchnata ac ati. Os nad ydych chi'n siŵr a oedd unrhyw gymorth blaenorol rydych chi wedi'i gael yn cyfri fel cymorth de minimis ai peidio, rhowch y manylion.

### **Adran 3 – Effaith Covid-19 ar eich busnes**

Mae angen i ni ddeall sut mae Covid-19 wedi effeithio arnoch chi ac ar eich busnes. Llenwch yr adran hon gyda chymaint o fanylion â phosibl er mwyn i ni allu deall pam bod angen cymorth gan y gronfa grant hon arnoch chi.

Bydd angen i chi ddangos yr amharwyd ar eich busnes a'ch bod yn wynebu heriau gweithredol ac ariannol o ganlyniad i COVID-19.

### **Adran 4 – Manylion Banc**

Rhowch fanylion cyfrif banc eich busnes oherwydd bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i dalu'r grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn atebol am unrhyw fanylion banc anghywir a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

### **Adran 5 - Datganiadau**

Darllenwch y datganiadau'n ofalus a thicio'r bylchau i gadarnhau eich bod yn derbyn ac yn deall y datganiadau.

Mae hi'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y canllawiau hyn.

## RHESTR WIRIO

Rhaid i chi anfon eich ffurflen gais gyda phrawf o'ch manylion adnabod, prawf o'r cyfeiriad, prawf o fasnachu gweithredol, cyfriflenni banc y busnes a manylion y trosiant blynyddol fel y nodir ar dudalen 2 y ddogfen hon.

## GRANT DARPARWYR GOFAL PLANT BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GYRRAEDD?

Ar ôl i'ch cais gyrraedd byddwn yn cysylltu â chi cyn pen 10 diwrnod i gadarnhau hynny.

Bydd y penderfyniadau ynghylch y ceisiadau'n cael eu gwneud ar sail yr wybodaeth a fydd ar y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig ac ar ôl i ni edrych ar wybodaeth sydd ar gael o ffynonellau data busnes eraill. Os bydd unrhyw ddata yn anghyfiawn neu'n anghywir neu os bydd y dystiolaeth a gyflwynir yn annigonol, **ni** fyddwn yn prosesu'r cais a bydd yn cael ei wrthod.

Byddwn yn ceisio prosesu ceisiadau am grant cyn pen 30 diwrnod.

**Os bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo** byddwch yn cael cynnig grant dros yr e-bost yn rhoi gwybod i chi. Bydd y cynnig grant ar agor am 14 diwrnod – os na fyddwch yn ei dderbyn yn ystod y cyfnod hwn bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Bydd y grantiau'n cael eu talu ar y sail bod 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

Rhaid i'r ymgeiswyr dderbyn y cynnig grant dros yr e-bost cyn i ni dalu'r grant.

**Os bydd eich cais yn aflwyddiannus**, byddwch chi'n cael neges e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes modd apelio.

## AD DALU'R GRANT

Dylai'r ymgeiswyr gofio ei bod hi'n bosibl i'r Awdurdod Lleol fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os bydd tystiolaeth yn dod i'r fei nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys i gael y Grant Darparwyr Gofal Plant.

## Enghreiffiau

### Enghreiffiau

Roedd gan **fusnes A** £5,000 o incwm a £3,000 o gostau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019. Roedd ei **incwm net** yn £2,000 dros y cyfnod hwnnw. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, roedd y coronafeirws wedi golygu bod incwm y busnes yn £2,000 a'i fod wedi cael £3,000 o gostau, a oedd yn golygu ei fod wedi cael *colled* net o £1,000. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr £2,000 o incwm net yn 2019 a'r £1,000 o golled net yn 2020 yn £3,000.

I gyfrifo'r gostyngiad mewn incwm net, rhaid i ni ystyried y newid mewn incwm net a'i rannu gyda'r incwm net gwreiddiol. Yn yr enghraifft hon, mae'r newid mewn incwm net yn

£3,000 (sef y gwahaniaeth rhwng incwm net 2019 a cholled net 2020). £2,000 oedd incwm net gwreiddiol 2019.

£3,000 wedi'i rannu gyda £2,000 = 1.5. 1.5 wedi'i luosi gyda 100 yn rhoi canran o 150%.

Mae'r busnes felly wedi gweld gostyngiad o 150% yn ei incwm net.

Gan fod y gostyngiad yn yr incwm net yn 150%, mae gan y busnes hawl i gael grant sy'n gyfartal i'r gostyngiad net, hyd at uchafswm o £5,000. Yn yr achos hwn byddai'r grant yn talu am y gostyngiad net sef £3,000.

Roedd gan **busnes B** £3,800 o incwm a £2,650 o gostau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019. Roedd ei **incwm net** yn £1,150. Roedd y busnes wedi cau oherwydd y coronafeirws rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 a dim ond £1,100 drwy'r Cynnig Gofal Plant a gafodd (gan gynnwys £500 a gafwyd ym mis Gorffennaf ar gyfer mis Mehefin). Er ei fod ar gau roedd costau'r busnes yn dal yn £1,200. Roedd hyn yn golygu bod y busnes wedi cael colled net o £100 ar gyfer y cyfnod mis Ebrill i fis Mehefin 2020.

Mae'r gwahaniaeth rhwng incwm net 2019 a cholled net 2020 yn £1,250.

£1,250 wedi'i rannu gyda £1,150 = 1.08. 1.08 wedi'i luosi gyda 100 yn rhoi canran o 108%.

Mae'r busnes felly wedi gweld gostyngiad o 108% yn ei incwm net.

Mae gan y busnes hawl i'r gostyngiad mewn incwm net, neu £5,000, pa un bynnag sydd isaf.

Byddai'r busnes felly'n gymwys i gael grant o £1,250, gan fod y gostyngiad mewn incwm net o £1,250 yn llai na £5,000.

Roedd gan **busnes C** £5,000 o incwm a £2,000 o gostau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019. Roedd ei **incwm net** yn £3,000. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 roedd y busnes wedi parhau i fasnachu ond, oherwydd y coronafeirws, roedd incwm y busnes yn £3,000 ac roedd ei gostau yn £1,400. Roedd hyn yn golygu bod y busnes wedi cael incwm net o £1,600 ar gyfer y cyfnod mis Ebrill i fis Mehefin 2020.

Mae'r gwahaniaeth rhwng incwm net 2019 a cholled net 2020 yn £1,400.

£1,400 wedi'i rannu gyda £3,000 = 0.47. 0.47 wedi'i luosi gyda 100 yn rhoi canran o 47%.

Mae'r busnes felly wedi gweld gostyngiad o 47% yn ei incwm net.

Gan fod y gostyngiad yn yr incwm net yn 47%, mae gan y busnes hawl i gael grant sy'n gyfartal i'r gostyngiad net, hyd at uchafswm o £2,500. Yn yr achos hwn byddai'r grant yn talu am y gostyngiad net sef £1,400.

Roedd **busnes D** wedi dechrau masnachu ar 1 Medi 2019. Gan fod y busnes wedi dechrau masnachu ar ôl 30 Mehefin 2019, mae'n gymwys i gael hyd at £2,500 o grant i dalu am golledion net a gafwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2020. Bydd y grant yn cyfateb i'r golled net a gafwyd dros y cyfnod hwn, hyd at uchafswm o £2,500.

Ar gyfer y cyfnod mis Ebrill i fis Mehefin 2020, roedd y busnes wedi cael £12,000 o incwm a £16,000 o gostau. Roedd y busnes felly wedi cael colled net o £4,000 rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020. Gan fod y golled net yn fwy na'r grant uchaf sydd ar gael sef £2,500, bydd y busnes yn cael £2,500 o grant.